**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**i'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2022**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Cymru) 2022.

## Ein rôl

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwyf yn ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Gallaf ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau ar ofal iechyd a ariennir yn breifat.

Rwyf hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau etholedig awdurdodau lleol wedi torri eu Codau Ymddygiad, sy'n nodi'r egwyddorion ymddygiad cydnabyddedig y dylai aelodau eu dilyn mewn bywyd cyhoeddus.

Bydd y pwerau ymchwilio ar ei liwt ei hun a roddwyd imi o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Deddf OGCC 2019) yn fy nghaniatáu i ymchwilio pan fydd tystiolaeth yn awgrymu y gall fod methiannau systematig, hyd yn oed os nad yw defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn codi cwynion. Mae'r Ddeddf

hefyd yn sefydlu’r Awdurdod Safonau Cwynion (CSA) i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi ymdrin â chwynion yn effeithiol gan ddefnyddio gweithdrefnau enghreifftiol, hyfforddiant a chasglu a chyhoeddi data.

**Sylwadau Cyffredinol**

Rwy’n croesawu llawer o’r diwygiadau i’r ddeddfwriaeth bresennol a nodir yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Cymru) 2022 (Rheoliadau 2022). Mae'r newidiadau arfaethedig i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn lliniaru ein pryderon blaenorol ynghylch aelodau cyfetholedig, gan fod eu rôl wedi'i diffinio'n glir yn adran 49 is-adran 7 y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac yn sicrhau eu bod yn cael eu trin yn yr un modd ag aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd o gynghorau cyfansoddol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Fodd bynnag, mae gennyf rai pryderon ynglŷn â’r diwygiadau arfaethedig i adran 51 y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Croesewir cymhwyso’r ddyletswydd i fabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer cyd-bwyllgorau corfforedig yn unol â chyrff awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rwy'n pryderu ynghylch dadgymhwyso is-adran 6 rhan (a) a (b) o adran 51 ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a'r cynnig o is-adran newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyhoeddi eu codau yn electronig yn unig.

Bydd y cymalau hyn yn gwahaniaethu’r sawl nad oes ganddynt fynediad at, neu’r sgiliau i ddefnyddio technoleg ddigidol, yn enwedig y rhai sy’n wynebu amddifadedd economaidd-gymdeithasol a’r henoed. I osgoi gwahaniaethu o’r fath, gallai Rheoliadau 2022 gynnwys cymal sy’n ei gwneud yn ofynnol i godau ymddygiad Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod ar gael mewn adeiladau cynghorau cyfansoddol ar gyfer aelodau’r cyhoedd. Byddai’n ddefnyddiol deall pam mae Llywodraeth Cymru yn credu na ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i’r un cymal i gyhoeddi hysbysiad am godau ymddygiad newydd neu ddiwygiedig mewn papur newydd hefyd.

Rwyf hefyd yn croesawu’r diwygiad S52ZA arfaethedig i’r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gan gadarnhau y bydd codau ymddygiad yn berthnasol i aelodau ac aelodau cyfetholedig. Wrth fyfyrio, rwyf o’r farn bod dileu'r gofyniad i aelodau gytuno'n ysgrifenedig i gadw at y cod ymddygiad perthnasol yn gam cadarnhaol.

Mae'r estyniad arfaethedig o'r amddiffyniad i aelodau Cyd-bwyllgorau Corfforedig a ddarperir gan adran 39 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn briodol. Cymerais y bydd y diwygiadau yn ymestyn i aelodau cyfetholedig hefyd, gan nad yw'r ymgynghoriad yn nodi'n benodol a byddwn yn gwerthfawrogi cadarnhad bod hyn yn wir.

Mae’r newidiadau hyn a gynigir yn adran 3 o Reoliadau 2022 i adrannau 71, 72, 78 a 79 o’r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon anfon adroddiadau ynghylch honiadau o dorri’r codau ymddygiad at y cyngor cyfansoddol perthnasol neu swyddog monitro’r Awdurdod Parc Cenedlaethol, yn ogystal â swyddog monitro'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig, yn ymddangos yn

rhesymol ac yn dod â Chyd-bwyllgorau Corfforedig yn unol â'r disgwyliadau sydd ar aelodau a swyddogion monitro o awdurdodau lleol Cymru.

Fodd bynnag, pan fydd aelod o Gyd-bwyllgor Corfforedig yn destun ymchwiliad am honiad o dorri cod ymddygiad y cyngor cyfansoddol, nid yw'n glir yn y Rheoliadau a ddylid roi gwybod i swyddog monitro’r Cyd-bwyllgor Corfforedig perthnasol yn yr un modd.

Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau Sefydlu ar gyfer pob Cyd-bwyllgor Corfforedig ynghylch atal aelodau yn ymddangos yn briodol ac yn gymesur. Fodd bynnag, nid yw'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau 2022, na'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft, yn nodi pa mor gyflym y dylai’r broses o benodi aelodau dros dro ei gymryd, na'r hyn sy'n digwydd o ran gwneud penderfyniadau tra bo swyddi ar y Pwyllgor yn parhau i fod heb eu llenwi.  Hwyrach y bydd yn fuddiol cynnwys darpariaeth yn y Canllawiau fel nad yw’r parhad gwasanaeth a ddarperir gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael ei gyfaddawdu'n ormodol gan swyddi gwag ar y Cyd-bwyllgorau Corfforedig neu eu his-bwyllgorau.

Gall rhoi’r pŵer i Gyd-bwyllgorau Corfforedig sefydlu cyd-bwyllgorau safonau fod â buddion, gan ganiatáu hyblygrwydd, cysondeb a rhannu adnoddau.  Fodd bynnag, mae yna hefyd rai materion posib sydd angen eu hystyried, megis barn aelodau o Gyd-bwyllgorau Corfforedig am aelodau nad ydynt yn ran o’u hardaloedd etholaethol yn meddu chyfrifoldeb dros ystyried honiadau ac adroddiadau ymchwilio.

Bydd angen cynnig rhagor o wybodaeth cyn y gallem gynnig barn ystyriol ynghylch a ddylid rhoi pŵer i Gyd-bwyllgorau Corfforedig sefydlu cyd-bwyllgor safonau. Mewn egwyddor, dylid ystyried y cynnig ymhellach, gan ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid ynghylch amrywiol opsiynau.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ar ôl dibynnu eto ar asesiad effaith rheoleiddiol y Rheoliadau Sefydlu, mae Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi methu ag asesu’r goblygiadau ariannol ar fy swyddfa, o ran cael cyrff ychwanegol yn ein hawdurdodaeth. Rydym wedi codi ein pryderon dro ar ôl tro mewn ymatebion ymgynghori blaenorol yn ymwneud â’r Rheoliadau Sefydlu a Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021, a gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Gwelodd fy swyddfa gynnydd o 47% mewn cwynion y  Cod Ymddygiad y llynedd, gan gynnwys cwynion yn ymwneud ag arweinwyr ac aelodau cabinet a chynnydd yn y rhai a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru. Yn y flwyddyn gyfredol hon rydym yn wynebu cynnydd o 28% mewn cwynion o gymharu â 2020/21. Rydym yn rhagweld cynnydd pellach o 10% mewn llwyth achosion yn 2022/23, a hynny heb ystyried cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig i'n hawdurdodaeth.

Gall y costau sy'n gysylltiedig â'r cwynion y gallwn eu disgwyl am Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'u haelodau fod yn sylweddol, felly mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi cadw'r sefyllfa hon, yn enwedig yng ngoleuni'r cynnydd yn y llwyth achosion yr ydym yn ei brofi.  Rhaid imi ailadrodd yn gadarn fy nghaisiadau

blaenorol bod y goblygiadau ariannol o gael cyrff ychwanegol yn ein hawdurdodaeth yn cael eu hystyried ar frys cyn i'r drydedd gyfran o reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddod i rym yng Ngwanwyn 2022.

**Sylwadau cloi**

Hyderaf y bydd fy sylwadau yn ddefnyddiol i chi.  Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, fy Mhennaeth Polisi (ania.rolewska@ombudsman.wales).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Rhagfyr 2021**